Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Linda Aindow**

**Caernarfon**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

03/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Mawrth 2017 |
| Ai gwasanaeth Dechrau'n Deg yw hwn? | Nage |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu’n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

***Arolwg a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19 yw hwn, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid ar y fframwaith ansawdd llawn.***

Mae'r plant yn hapus; maen nhw’n chwarae'n hyderus gyda'i gilydd ac yn ymlacio yng nghwmni'r gwarchodwr plant. Maent yn mynegi eu hunain yn dda, yn unol â’u hoedrannau a’u camau datblygiad.
Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio rhai gweithgareddau ac yn cynnwys digwyddiadau tymhorol o fewn yr amserlen chwarae a dysgu wythnosol. Mae hi'n garedig a gofalgar, yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyriol o'u hanghenion a'u hoffterau.
Mae'r adeilad yn lân a diogel ac yn darparu mannau a chyfleusterau addas ar gyfer y plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi cynllunio asesiadau risg ysgrifenedig ac yn gweithredu i leihau risgiau posib i'r plant.
Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal y cofnodion a gwaith papur gofynnol a rhoddodd sylw yn brydlon i faterion a godwyd yn ystod y broses arolygu. Mae ganddi berthynas effeithiol gyda rhieni a'r ysgol a chylch chwarae lleol, er budd i'r plant.

## Llesiant

Mae’r plant yn cael cyfleoedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain.  Maent yn penderfynu’r hyn y maent am ei wneud a’r hyn y maent am chwarae gydag ef.  Er enghraifft, mae'r plant yn hapus yn dewis eistedd ar y llawr yn chwarae gyda theganau neu’n eistedd gyda'i gilydd ar y soffa, yn nodio a siarad gyda'i gilydd. Mae'r plant yn gofyn i'r gwarchodwr plant yn hyderus am ragor o ffrwythau i’w bwyta amser cinio ac mae hi’n ymateb yn gyflym i'w ceisiadau.

Mae'r plant yn fodlon ac yn sefydlog. Maent yn deall y drefn ddyddiol ac yn defnyddio'r hylif gwrthfacterol i lanhau eu dwylo cyn bwyta, heb unrhyw ffwdan. Mae awyrgylch teuluol a chynnes wrth iddynt eistedd o amgylch y bwrdd bwyta yn bwyta eu cinio a siarad â'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn gysurus ac yn rhoi cwtsh yn naturiol i'r gwarchodwr plant wrth iddynt  chwarae ochr yn ochr â'i gilydd.  Roedd y rhieni a lenwodd ein holiaduron AGC yn cadarnhau bod eu plant yn teimlo yn ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn cael rhyngweithiadau da gyda'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn rhannu adnoddau yn addas ac yn cofleidio eu ffrind wrth chwarae. Anogir y plant i ddangos cwrteisi trwy ddweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’.

Mae'r plant yn mwynhau chwarae gyda'u gweithgareddau dewisol. Maent yn gwthio ceir o amgylch y mat chwarae ac yn ffitio gwahanol siapau i mewn i'r blwch dosbarthu siapau. Mae'r plant yn mwmian ac yn ceisio canu geiriau cân wrth iddynt blycio gitâr ac yn gwenu pan fydd y gwarchodwr plant yn ymuno â nhw. Roedd y rhieni a lenwodd ein holiaduron AGC yn cadarnhau bod eu plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn chwarae corfforol tu allan.

Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol yn ystod eu chwarae. Mae eu hiaith yn datblygu yn dda gan eu bod yn cael digon o sgyrsiau gyda'i gilydd. Mae'r plant yn defnyddio eu dychymyg trwy greu storïau wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn esgus cymysgu bwyd mewn potel blastig a bwydo eu ffrind â llwy. Mae'r plant yn dechrau dysgu sut i ofalu am eu hunain; maent yn gwybod sut mae rhwbio'r hylif dwylo ar eu dwylo a sut i fwydo eu hunain amser cinio.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl yn cadw plant yn ddiogel ac wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant. Gall cymorth cyntaf sylfaenol gael ei roi os oes angen gan fod gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol. Mae cofnodion presenoldeb dyddiol yn cael eu cadw’n gywir. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd rhaid iddi gofnodi unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau nac achosion o roi meddyginiaeth hyd yma. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod hi’n paratoi prydiau bwyd cartref i'r plant y rhan fwyaf o ddyddiau. Darparwyd brechdanau gyda ffrwythau ffres ac ychydig bach iawn o greision gyda dŵr i'w yfed. Cadarnhaodd y gwarchodwr fod ymarferion tân yn cael eu hymarfer ond heb gael eu cofnodi. Mae hi’n bwriadu adolygu ei hasesiad risg tân i fodloni’r newidiadau mewn canllawiau diweddar. Roedd gan y gwarchodwr plant asesiad risg manwl mewn perthynas â rheoli COVID-19. Esboniodd ei gweithdrefn newid cewynnau, sydd yn unol ag arfer rheoli heintiau cyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’r plant ac yn parchu'r hyn maent yn ei ddweud. Mae hi’n eu canmol nhw am eu cyflawniadau, gan wneud i'r plant deimlo’n dda am eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant yn eu chwarae ac mae hi’n garedig ac yn addfwyn yn ei dull gweithredu. Mae hi'n adnabod y plant yn dda ac mae'n siarad â nhw am eu diddordebau a'u teuluoedd.

Mae rhai gweithgareddau gosod wedi eu cynllunio'n wythnosol ac mae gweithgareddau thematig yn cael eu hymgorffori yn chwarae a dysgu'r plant yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn treulio amser yn yr awyr iach, yn cerdded neu’n chwarae y tu allan pan fo'r tywydd yn caniatáu. Mae hi’n eistedd ochr yn ochr â’r plant ac yn cefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae hi’n enwi anifeiliaid a lliwiau wrth iddynt chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn cael hwyl gyda'r plant. Mae hi’n gwneud iddynt chwerthin pan fydd hi’n eu goglais ac mae'r plant yn piffian chwerthin pan fydd hi’n gwneud sŵn ymdywallt wrth ddefnyddio’r chwistrelliad ffug.

## Yr Amgylchedd

Mae'r adeilad yn saff a diogel, a gofynnir i ymwelwyr gofnodi eu presenoldeb. Mae gan y gwarchodwr plant systemau ar waith i sicrhau diogelwch plant, ei hunan a'i theulu. Er enghraifft, mae'r adeilad yn lân ac yn daclus ac wedi ei gynnal yn dda, sydd yn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae hi'n adolygu asesiad risg ysgrifenedig y gwasanaeth bob blwyddyn, gan sicrhau ei fod yn gyfredol. Esboniodd y gwarchodwr plant ei threfniadau ar gyfer adnoddau glanhau, a oedd yn dderbyniol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu lle i'r plant symud o gwmpas mewn amgylchedd cartrefol, cynnes a chroesawgar. Mae gan y plant eu hystafell chwarae eu hunain ar y llawr isaf gyda mynediad drwy'r drysau patio yn syth i'r ardd. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod hi'n goruchwylio'r plant sy'n defnyddio'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau. Mae'n sicrhau bod yr adnoddau a'r amgylchedd, y tu fewn a’r tu allan, yn lân ac mewn cyflwr derbyniol. Mae'r teganau wedi’u lleoli o fewn cyrraedd y plant, ac yn addas i'w hoedran a'u cyfnodau datblygu. Mae yna gyfleoedd i eistedd gyda'i gilydd amser bwyd ac i ymgymryd â gweithgareddau crefft wrth y bwrdd bwyta. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y plant gadeiriau cyfforddus a mannau tawel i ymlacio ynddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben boddhaol sy’n adlewyrchu’r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae hi'n darparu’r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni cyn bod eu plentyn yn dechrau, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg yn rhugl ond ar hyn o bryd nid yw’n bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg gan mai gwaith papur Saesneg yn unig sydd ar gael.

Cwblhaodd y gwarchodwr plant ffurflen hunanasesu'r gwasanaeth ac adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal eleni. Nododd fod rhieni yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roed rhieni yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir yn holiaduron AGC. Er enghraifft, nododd y rhieni fod y gwarchodwr plant yn syfrdanol ac yn wych yn eu barn hwy, ac y byddent yn ei chymeradwyo hi'n uchel a'i bod hi bob amser yn groesawgar.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi hi a holl aelodau'r cartref dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.  Mae ei hyswiriant ar gyfer y busnes gwarchod plant yn gyfredol. Mae hi'n parhau i sicrhau bod ei hyfforddiant gorfodol yn cael ei gadw’n gyfredol a dywedodd wrthym ei bod hi wrth ei bodd yn gofalu am blant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu partneriaethau cadarnhaol â rhieni. Mae hi'n sicrhau ei bod hi’n cael y wybodaeth berthnasol oddi wrthynt ynglŷn ag anghenion a hoffterau eu plant cyn iddynt ddechrau. Mae hi'n rhannu gwybodaeth gyda rhieni pan fyddant yn casglu eu plentyn. Roedd sylwadau'r rhieni yn ein holiaduron yn nodi bod y gwarchodwr plant bob amser yn gefnogol, eu bod wedi derbyn copïau o'i pholisïau, a’u bod yn cael gwybod am amser eu plant gyda'r gwarchodwr plant bob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn casglu plant o'r ysgol a'r cylch chwarae lleol ac felly gall gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda hi gan staff/athrawon gael ei rhoi i rieni. Mae hyn yn darparu cysondeb yn y gofal er budd y plant. Mae’r plant yn mynd am dro o fewn eu cymuned yn aml, sydd yn eu galluogi i ddeall mwy am y byd o'u cwmpas.

## Argymhellion er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Datblygu asesiad risg ymarfer tân yn unol â chanllawiau diweddar a chadw cofnod ysgrifenedig o'r ymarferion tân a gynhelir.

A2. Ystyried peidio â chynnig bwyd wedi ei brosesu amser bwyd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/12/2021